

Astudiaeth Achos: Milfeddyg - Helena

Beth ydych chi'n ei wneud?

Er fy mod i'n gwneud rhywfaint o waith rhan amser gydag anifeiliaid bach, milfeddyg ceffylau wyf yn bennaf. Mae'r rhan fwyaf o fy nghleifion yn geffylau neidio neu'n geffylau hela. Rwy'n teithio gryn dipyn i ymweld â'r ceffylau y mae arnynt angen gofal gen i. Gall y gwaith gynnwys llawer o waith brys yn hwyr yn y nos ac ar benwythnosau.



Beth yw'ch cefndir?

Roeddwn i bob amser yn mwynhau helpu anifeiliaid pan oeddwn yn blentyn. Felly, pan ddechreuais i farchogaeth yn fy ardegau cynnar, roeddwn i'n gwybod yn syth fy mod i am fod yn filfeddyg ceffylau. Gan anelu at hynny, felly, cefais gymaint o brofiad ag a oedd yn bosibl gyda chymaint o wahanol anifeiliaid ag a oedd yn bosibl cyn cynnig am le mewn ysgol filfeddygaeth.

Ar ôl dechrau astudio yn yr ysgol filfeddygaeth, treuliais bob haf ac unrhyw amser rhydd arall a oedd gen i'n gweithio yn rhan amser mewn clinigau anifeiliaid bach a gyda milfeddygon profiadol a oedd yn trin ceffylau.

Pa nodweddion sydd eu hangen i fod yn llwyddiannus yn eich swydd chi?

Mae'n amlwg bod yn rhaid i filfeddyg fod yn gysurus yn delio ag anifeiliaid. Mae'n rhaid i filfeddygon fod yn hyblyg hefyd.

Mae mathau newydd o driniaethau, therapïau a thechnolegau'n datblygu o hyd, ac mae'n rhaid i ni sicrhau bod gennym y wybodaeth ddiweddaraf. Mae hefyd yn bwysig cael sgiliau cyfathrebu da - mae'n bwysig rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i berchnogion pryderus.

Pa swyddi eraill allech chi ei wneud gan ddefnyddio'r sgiliau o'r swydd hon?

Gallai milfeddyg ddewis symud ymlaen i fod yn werthwr i gwmni cynnyrch fferyllol i anifeiliaid neu'n ymgynghorydd maeth i gwmnïau yn y sector amaeth. Bydd rhai milfeddygon yn defnyddio eu sgiliau i fridio, hyfforddi neu arddangos anifeiliaid.

Pa newidiadau fydd yn y dyfodol?

Mae bod yn berchen ar geffyl a chadw ceffyl yn mynd yn fwyfwy drud, felly mae llai o bobl yn prynu ceffylau.

O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd llai o alw am filfeddygon ceffylau yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae anifeiliaid bach, mwy fforddiadwy megis cwn a chathod yn dal yn boblogaidd. Felly, dylai fod digon o alw o hyd am filfeddygon sy'n trin anifeiliaid bach.

Mae milfeddygon sy'n trin anifeiliaid mawr yn dechrau defnyddio technolegau symudol sy'n eu galluogi i ddiagnosiso problemau meddygol yn y fan a'r lle.

Yn ogystal, mae milfeddygon yn gyffredinol yn gorfod dysgu delio â chleientiaid soffistigedig a gwybodus sy'n gofyn llawer am eu harian.

Oes nifer o gyfleoedd i fynd i mewn i'r yrfa hon?

Gall milfeddygon weithio mewn gwahanol ffyrdd. Bydd llawer yn gweithio mewn trefi a dinasoedd yn trin anifeiliaid dof yn bennaf, er enghraifft anifeiliaid anwes. Bydd milfeddygon eraill yn gweithio mewn ardaloedd gwledig yn unig, a bydd rhai'n gwneud ychydig bach o'r ddau. Yna, bydd rhai milfeddygon fel fi'n arbenigo ymhellach.

Fodd bynnag, os oes gennych ddi-ddordeb mewn bod yn filfeddyg, dylech chi sylweddoli bod cystadleuaeth fawr am leoedd mewn ysgolion milfeddygaeth. Ond os ydych chi'n meddwl eich bod yn addas ar gyfer y gwaith, ewch amdani.

Beth ydych chi'n ei hoffi am eich swydd?

Yn gyntaf, rwyf wrth fy modd yn teithio o le i le. Rwy'n hoffi mynd i leoedd newydd a gweld gwahanol bobl a gwahanol geffylau.

Yr ail beth rwy'n ei hoffi am fy swydd yw darganfod beth yw problem ceffyl sy'n sâl a datrys y broblem.

Y trydydd peth rwy'n ei hoffi am fy swydd yw'r ffaith eich bod yn gweld problemau newydd a gwahanol o hyd.

Beth nad ydych chi'n ei hoffi am eich swydd?

Yn gyntaf, rwy'n casáu'r diwrnodau hir. Weithiau, byddaf yn cael galwad i fynd allan am 3 o'r gloch y bore, byddaf yn mynd allan eto am 7 yb a byddaf yn cyrraedd adref am 8 yh. Mae diwrnod o'r fath yn hir iawn, iawn.

Yn ail, mae'n waith corfforol iawn, yn enwedig wrth ddelio â cheffylau arbennig o fawr.

Yn drydydd, ac yn bennaf am wn i, rwy'n casáu ceisio casglu arian am waith rwyf wedi'i wneud. Mae'n dasg wirioneddol anodd, a dydych chi ddim yn cael eich dysgu sut i wneud hynny yn yr ysgol filfeddygaeth.

Pa gyngor fyddwch chi'n ei rhoi i rywun sydd â diddordeb yn eich gyrfa chi?

Allwch chi ddim penderfynu bod yn filfeddyg oherwydd eich bod chi'n dwlu ar anifeiliaid. Nid yw'r gwaith mor hawdd ag y mae'n ymddangos. Mae'n rhaid i chi fod yn barod i wneud rhai pethau nad ydych yn hoffi eu gwneud, megis difa anifeiliaid.

Diwrnod ym mywyd

9:00 yb - 10:00 yb

Galw yn y swyddfa i gael negeseuon, siarad â chleientiaid ar y ffôn, trefnu amserlen ar gyfer y diwrnod, rhoi fy offer mewn trefn.

10:00 yb - 4:00 yh

Ymweld â chleientiaid a'u hanifeiliaid.

4:00 yh - 7:00 yh

Ymateb i alwad frys: rhoi llawdriniaeth i anifail sydd wedi'i anafu.

7:00 yh - 8:00 yh

Gyrru adref, rhoi'r offer i gadw a sicrhau fy mod i'n cael unrhyw negeseuon.